# Cyngor Cymuned LLANBRYNMAIR Community Council

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar Nos Fercher, 5ed Mis Mehefin 2024

**Presennol**
Cynghorwyr – E Davies (Cadeirydd), D Jones, F Cauley, B Jones, I Edwards, S Evans, E Lewis a G Davies

**Ymddiheuriadau** - P Jones, R Ashton, G Mitchell (Powys)

Cynnigiodd y Cadeirydd, E Davies, croeso cynnes i bawb

**Cyflwyniadau –**

**Datganiadau diddordeb** –

**Cytuno Cofnodion y cyfarfod blaenorol ar 3ydd Ebrill 2024 a'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ar 1af Mai 2024**
I Edwards yn cynnig, B Jones yn eilio, pawb yn gytun

**Materion yn codi**

1. Parcio ceir ym mhentref Llan - Mae S Reast a F Cauley wedi symud yr hen hysbysfwrdd o wal y siop yn Llanbrynmair ond dim wedi ei osod ar y safle yn Llan eto
2. Cae Cymunedol - Mae'r arwyddion priodol wedi eu osod a'r cae ar agor i'r cyhoedd. Trafodwyd maint a defnydd y pits pêl droed a'r angen am pyst. S Reast i atgoffa P Jones am clirio'r coed yn y gornel
3. Cyfleusterau cyhoeddus - Mae S Reast yn aros am canlyniadau'r cais grant i allu talu am adnewyddu'r 'plumbing' er mwyn ail-agor y toiledau. Yn y cyfamser, trafodwyd y problemau gyda'r trefniadau dros dro. Mae S Reast wedi gofyn i David Williams i ddod i wagu, glanhau ac ail lenwi dŵr y portaloos dwywaith yr wythnos yn hytrach nag unwaith gan ei fod mor brysur.
4. Offer diffibrilwyr yn ardal Llanbrynmair - Cadarnhawyd I Edwards fod popeth yn iawn ar hyn o bryd heblaw am yr angen am gabinet newydd i Llanbrynmair. Cynigwyd trefnu sesiwn hyfforddiant i pobol y fro. I Edwards a S Reast i gydlynu
5. Ystyried offer newydd yn y Cae Chwarae - Mae Wicksteed wedi gorffen gosod yr offer chwarae newydd ac mae B Jones wedi gosod swings y babanod yn eu le. S Reast a B Jones i edrych ar materion cynal a chadw y Zip-wire
6. "Concealed entrance", Maes yr Efail – B Jones a R Ashton i helpu gosod postyn metal yn ei le ar gyfer drych – dim diweddariad
7. Biniau ar gwaelod ffordd Bryneinty – Ni chafodd y sbwriel ei gasglu ar hyd y ffordd fel y dylir o dan y trefn newydd. Buodd F Cauley yn trafod y sefyllfa gyda'r Gwasanaeth Gwastraff, maent yn cadarnhau y fydd y popeth yn gywir y tro nesaf
8. Lloches Bws Dolfach – Mae'r lloches newydd wedi ei cwbwlhau
9. Tocio'r shetyn a mieri yn Bont – Mae gwirfoddolwr yn Bont wedi cychwyn y gwaith ond mewn penbleth ar sut i torri'r brigiau uwch. E Davies a F Cauley i cwrdd ar y safle i drafod yr opsiynnau. Cofiwyd mae un o telerau trosglwyddo'r tir gan y cyn-perchenog oedd fod angen cadw'r coed yn glir o'r gwifrau uwchben
10. Bainc yn Dolfach – Mae'r bainc yn ei le. Cynigwyd rhoi'r bainc sydd i fynd yn Llan ar y cae mawr dros dro. B Jones i edrych ar sut yw osod yn saff

11. Sied wedi torri yn y cae chwarae – Rhaid aros am tywydd sych i symud y sied – dim diweddariad
12. Ffens o amgylch y Pump House yn Bont – Dim diweddariad. S Reast i holi eto ac i ystyried gwneud cwyn ffurfiol
13. Problemau gyda'r Ganolfan Iechyd – Cafwyd crynodeb o ymweliad E Davies ac S Evans i'r Ganolfan
14. Baw cŵn – S Reast wedi gwneud gryn dipyn o ymchwil i mewn i'r mater ac wrthi yn trefnu cyfarfod gyda Jodie Griffith, Swyddog Prosiect, Cyngor Sir Powys yn y pentref
15. Openreach yn torri coed a gadael brigiau ar lawr – S Reast wedi gwenud ymholiadau – dim diweddariad
16. Diffyg gohebiaeth i cais cynllunio Hafodwen – Cyflwynwyd llythyr gan Rhian Griffiths, Uwch Swyddog Cynllunio
17. Llwybr heibio Ysgoldy Talerddig angen giat – Darganfyddwyd fod y llwybr ar tir yr Ysgoldy. I Edwards i assesu'r mater
18. Aros dros nôs yn y maes parcio – Mae'r arwyddion yn eu le heb unrhyw problemau hyd yn hyn
19. Mynediad trwy cae y cymuned – Cynigwyd rhoi gât bach wrth y mynediad ar gyfer pobol yn defnyddio'r cae a cloi'r gât mawr. B Jones i ymchwilio prisiau'r nwyddau
20. Llwybrau Cyhoeddus – Cytynwyd fod pob ymholiad yn cael ei cyfeirio at Richard Jones, Cyngor Sir Powys
21. Peipen nwy yn mynd ar draws ffordd Brynaire – Mae Cyngor Sir Powys wedi cytuno i cydlynni'r ymholiad gyda'r cwmni nwy – dim diweddariad
22. Coed yn gwyro i'r ffordd ar ôl Plas Pennant – Cymydog wedi torri'r coed i ddatrus y problem
23. Problemau yng Nghlanclegyr – Mieri ar y palmant, danadl poethion ac ysgyll ar ffiniau'r cae bach, aflonyddwch sŵn gan cerbyd/trailer/defaid a'r angen am rhywle i rhedeg cŵn – G Mitchell i cwrdd a swyddogion Adran Tai ar y safle
24. Sbwriel yn y cae mawr – Mae perchenog y siop yn mynd i annog plant i casglu sbwriel. Mae Cadwch Cymru'n Daclus yn mynd i cyfrannu offer
25. Pryderon ynglyn a datblygiad tir ar ffordd Pandy – Aros am fwy o manylion
26. Gweledegd trwy lloches bws ger gardd Wynstay – S Reast i trafod efo Traws Cambria
27. Golau ar hen siop Llan – S Reast wedi gofyn am diweddariad eto er fod angen aros i perchnogaeth yr adeilad cael ei sefydlu wedi marwolaeth Bernard
28. Golau cyferbyn a Pengeulan – S Reast wedi gofyn am diweddariad eto
29. Cyflwr dŵr – Angen diweddariad ar ymdrechion Hafren Dyfrdwy i wella sefyllfa gor-lifo carthion i mewn i'r afonydd
30. Rhwydwaith Bws Lleol – Cyflwynwyd gofyniad gan Tom Lewis, Swyddog Prosiect Gwasanaeth Bws lleol Rhanbarthol am dymuniadau'r gymuned ynglyn a datblygiadau i'r gwasanaeth bws. Credwyd fod angen i'r gwasanaeth presennol parhau ond fod angen taith ychwanegol i cludo pobol i'w swyddi yn Fachynlleth yn y bore mewn pryd i weithio
31. Llwybr Ceffyl, Esgair/Cwm Calch – Marchogion yn cael problemau ar tir corsiog ond dealltwyd nad oes modd newid y tirewedd

**Materion ffyrdd**

**CSP**

| Lleoliad | Adroddwyd | Nodiadau |
|---|---|---|
| Dŵr a ffordd Pandy | | G Mitchell a R Ashton I cwrdd ar y safle |
| Gridiau gwartheg – Talerddig, Cwm nant yr Eira a Cwm Calch | Ie | |
| Pibell o dan ffordd Ystradfawr | Ie | G Mitchell wedi ymweld |
| Cerrig a pyst gwyn ar ffordd Pandy | Ie | G Mitchell wedi ymweld |
| Ffordd islaw Lluest yn disgyn | Ie | G Mitchell ac Aled Jones wedi ymweld |
| Draen wrth Hen Gapel | Ie | G Mitchell ac Aled Jones wedi ymweld |
| Cyflwr ffordd Cwmcarnedd | Ie | G Mitchell ac Aled Jones wedi ymweld |
| Cyflwr ffordd Pandy pen Tafolog | Ie | G Mitchell ac Aled Jones wedi ymweld |
| Ffordd yn disgyn yng Nghrugnant | Ie | |
| Ochrau ffordd rhwng Pennant a Crugnant | | Cynnigwyd gofyn am pyst |
| 'Sleeping policeman' wrth yr ysgol | | I'w trafod gyda CSP a'r ysgol |

**Asiant Cefnffyrdd**

| Lleoliad | Adroddwyd | Nodiadau |
|---|---|---|
| Ffordd yn disgyn yn Nolgoch | Ie | Cadarnhawyd fod yn cynlluniau ar y gweill a'r fod y Gwaith am cael ei wneud yn y blwyddyn ariannol yma. Rhaid hefyd rhoi sylw I'r effaith o cau hwnw ar y ffordd o Talerddig i Bont tra fydd gwaith ar y gweill – I'w ddatrus |
| Cyflymder traffig ar gornel Wynnstay | Ie | S Reast i ofyn am data gan GoSafe |
| Cyflymder traffid yn Nhalerddig | Ie | Russell George AS i ofyn am 50mya ar y ffordd fawr i Talerddig, G Mitchell i ofyn am 30mya ar y ffrodd fach tuag at Bont |
| Llwybr o Dolfach i Llanbrynmair ac ymlaen i Tafolwern | Ie | Ymholiadau i David Selby (aelod cabinet), Diane Reynolds (Uwch Swyddog, Adfywio) a Vincent Goodwin (Active Travel) |
| Pant yn y ffordd rhwng troiad Pentremawr a Gwernbwlch | Ie | Mae fwy o tarmac wedi cael ei osod dros dro |
| Dŵr yn sefyll ar y ffordd heibio Station Garage | | |

**Adroddiad ar lafar gan Cyng Gary Mitchell (Cyngor Sir Powys)**

**Gohebiaeth**

**Cynllunio**

24/0677/FUL | Retrospective application for change of use of land for the siting of a Shepherds Hut with outhouse to be used as holiday let - Cefnogwyd

**Cyfriflen a balans ariannol**

Ar gael ar 16/05/24

| | |
|---|---|
| Cyfrif Cyfredol | £29,795.15 |
| Cyfrif Cadw | £2,927.08 |
| Cyfanswm | £32,722.23 |
| Sieciau heb eu cyflwyno | £0 |
| Balans ar gael | £32,722.23 |

**Ceisiadau a thaliadau ariannol**

| £ | Eitem | Cyfanswm | Nodiadau |
|---|---|---|---|
| 05/06/24 | Cyflog y Clerc (Ebrill) | £397.60 | Wedi talu |
| 05/06/24 | Treth ac NI ar cyflog y Clerc (Ebrill) | £99.20 | Wedi talu |
| 05/06/24 | Cyflog y Clerc (Mai) | £397.60 | Cytynwyd |
| 05/06/24 | Treth ac NI ar cyflog y Clerc (Mai) | £99.20 | Cytynwyd |
| 05/06/24 | Hafren Dyfrdwy | £750.00 | Rhan-taliad, wedi talu |
| 05/06/24 | E.ON Next (Mawrth) | £21.94 | Wedi talu |
| 05/06/24 | E.ON Next (Ebrill) | £16.45 | Cytynwyd |
| 05/06/24 | MJN Safety Signs Ltd | £273.60 | Wedi talu |
| 05/06/24 | Border Janitorial Supplies | £102.53 | Wedi talu |
| 05/06/24 | S J Ashworth – Glanhau Toiledau (Ebrill) | £300.00 | Wedi talu |
| 05/06/24 | S J Ashworth – Glanhau toiledau (Mai) | £310.00 | Wedi talu |
| 05/06/24 | R A Hughes - Gwasanaethau cyfieithu (Ebrill) | £120.00 | Wedi talu |
| 05/06/24 | R A Hughes  Gwasanaethau cyfieithu (Mai) | £140.00 | Cytynwyd |
| 05/06/24 | Sarah Reast – Inc a gwagu portaloos | £38.24 | Cytynwyd |
| 05/06/24 | Wicksteed – offer chwarae | £27,138.59 | Cytynwyd |

**Unrhyw fater arall**

**Eitemau ar gyfer yr agenda nesa**

- S Reast – Grantiau ar gyfer costau cyfieithu
- F Cauley – Baw ar ffordd y Wern
- F Cauley – Wal yn Llan
- G Davies – Cyflwr ffordd Pont Brics
- I Edwards – Gridiau gwartheg
- E Lewis – Llythyr o ddiolch i trigolyn am strimio

**Cynhelir y cyfarfod nesaf ar Nos Fercher 3ydd mis Gorffenaf 2024**
**Ni fydd yna cyfarfod yn mis Awst**
**Cynhelir y cyfarfod canlynol ar Nos Fercher, 4ydd misMedi 2024**

Sarah Reast
Clerc i Gyngor Cymuned Llanbrynmair